



Wrth i ni gamu i mewn i chwarter cyntaf 2025, mae Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) yn falch o dynnu sylw at y gweithgareddau diweddaraf sy'n llunio tirwedd sgiliau ein rhanbarth.

Mae ein hymrwymiad i sbarduno twf economaidd a ffyniant yn parhau i fod yn gryf, ac rydym yn awyddus i arddangos y cyflawniadau a'r mentrau sy'n cael effaith.

Dros y misoedd diwethaf rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn sicrhau bod addysg ôl-16 yn cyd-fynd ag anghenion diwydiannau allweddol. Trwy gydweithio â'n grwpiau clwstwr, rydym wedi cryfhau sgiliau a thalent ac wedi cefnogi modelau cyrsiau dwys - gan ddyfnhau ymgysylltiad rhwng diwydiant, addysg a rhanddeiliaid allweddol.

Yn y rhifyn hwn, rydym yn tynnu sylw at fentrau allweddol sy'n meithrin sgiliau, arloesedd a chyfleoedd, Gan gynnwys **Wythnos Prentisiaethau Cymru 2025** - ymgyrch hanfodol sy'n hyrwyddo rôl prentisiaethau wrth adeiladu gweithlu medrus ar gyfer y dyfodol.

Rydym hefyd yn canolbwyntio ar **Wythnos Technoleg Cymru 2025**, gan uno talent a thechnoleg ar draws y rhanbarth, a **Chynhadledd Rhanddeiliaid PSPRC**, lle byddwn yn llunio dyfodol sgiliau yng Nghymru ac yn sbarduno sgysiau a gweithredu ystyrlon.

Rydym hefyd yn tynnu sylw at ymdrechion i ennyn diddordeb pobl ifanc drwy ddigwyddiadau sioe deithiol Addysg Bellach, dathlu rhagoriaeth cyflogwyr yng Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru, ac amlygu'r Academi Cogyddion Iau, gan ysbrydoli talent goginio y dyfodol. Yn ogystal, rydym yn archwilio cynllun strategol newydd Medr ac yn cynnwys astudiaethau achos y sector lletygarwch, sy'n adlewyrchu ei dirwedd esblygol.

Mae ein diolch diffuant i'n partneriaid, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach am eu cefnogaeth barhaus. Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu dyfodol ffyniannus ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

**Leigh Hughes,
Cadeirydd, Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC**



Wythnos Prentisiaethau Cymru 2025 - dathlu sgiliau a chyfleoedd

Roedd Wythnos Prentisiaethau Cymru 2025 (AW2025) yn ddathliad bywiog o'r effaith y mae prentisiaethau yn ei chael ar unigolion, busnesau ac economi Cymru.

Ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) daeth sefydliadau gan gynnwys FfHCC, Gyrfa Cymru, awdurdodau lleol, Colegau Cymru, a Llywodraeth Cymru at ei gilydd i dynnu sylw at y cyfleoedd amrywiol y mae prentisiaethau yn eu cynnig.

Arddangos prentisiaethau yn y Senedd

Roedd y Ffair Brentisiaethau yn y Senedd, a drefnwyd gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (FfHCC) a Colegau Cymru, yn ddigwyddiad blaenllaw yn ystod yr wythnos a chafodd ei gynnal gan y grŵp trawsbleidiol ar brentisiaethau, wedi ei gadeirio ar y cyd gan Luke Fletcher AoS a Joyce Watson AoS.

Daeth y digwyddiad â phrentisiaid, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a llunwyr polisiâu at ei gilydd i drafod y rôl hanfodol y mae prentisiaethau yn ei chwarae wrth ddatblygu gweithlu medrus.

Anerchodd Vikki Howells, y gweinidog dros addysg bellach ac uwch, y mynychwyr, gan atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i baratoi dysgwyr ar gyfer swyddi'r dyfodol.

Mynychwyd y digwyddiad gan bob un o'r 10 deiliad comisiwn contract dysgu seiliedig ar waith, yn ogystal â chynrychiolwyr o Medr a Llywodraeth Cymru, gan ddangos cryfder partneriaethau.

Cadarnhaodd datganiad ar y cyd gan FfHCC a Colegau Cymru bwysigrwydd prentisiaethau wrth ddatblygu gweithlu gwydn a medrus, gan alw am fuddsoddiad parhaus i gyrraedd targedau uchelgeisiol Cymru.




Gyrfa Cymru: cefnogi pobl ifanc i gael prentisiaethau

Trwy gydol AW2025, cefnogodd Gyrfa Cymru bobl ifanc i archwilio prentisiaethau. Fe wnaethant ddarparu canllawiau ar ysgrifennu CV, cymorth cyfweiliad, a gwasanaethau paru swyddi gwag.

Gyda channoedd o brentisiaethau ar gael ar draws 23 o sectorau gwahanol, anogodd Gyrfa Cymru bobl ifanc i archwilio eu dewisiadau ac ennill profiad gwaith gwerthfawr.

Stori lwyddiant wych oedd Taylor Hoskins o Sgiwen, a oedd, ar ôl cwblhau profiad gwaith yn Wales & West Utilities, wedi cael prentisiaeth. Mae Taylor bellach yn cynghori pobl ifanc i ddilyn eu diddordebau ac ennill profiad ymarferol. **Darllenwch stori lawn Taylor** ar wefan Gyrfa Cymru.

Darganfyddwch fwy am gefnogaeth gan Gyrfa Cymru ar eu gwefan. (www.careerswales.gov.wales)



- 

- **Prentisiaethau - unigolion LLYW.CYMRU**
- **Prentisiaethau Porth Sgiliau Busnes Cymru**
- **Chwilio am brentisiaeth Prentisiaethau**





Wythnos Dechnoleg Cymru 2025 - uno arloesi, talent a chyfleoedd

Rhowch nodyn yn eich calendr ar gyfer un o'r digwyddiadau mwyaf disgwyliedig yn y calendr technoleg byd-eang.

Bydd **Wythnos Dechnoleg Cymru 2025** yn digwydd rhwng 24 a 26 Tachwedd 2025 yng Nghanolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru (CGRC) yng Nghasnewydd.

Wythnos Dechnoleg Cymru, sydd wedi'i phwero gan Technology Connected, yw uwchgynhadledd dechnoleg ryngwladol fwyaf Cymru, sy'n dathlu ecosystem dechnoleg lewyrchus y genedl. Mae'r digwyddiad unigryw hwn yn dod â'r meddyliau mwyaf disglair o sectorau gwahanol ynghyd i arddangos technoleg arloesol ac archwilio dyfodol diwydiannau fel gofal iechyd, gemau, archwilio'r gofod, ynni cynaliadwy a mwy.

Wythnos Dechnoleg Cymru yw'r llwyfan perffaith i weld pŵer technoleg a phobl yn dod at ei gilydd. Gyda'i phwyslais ar arloesi, cydweithredu a mewnwelediadau i'r diwydiant, mae'r uwchgynhadledd ddeinamig hon yn cynnig cyfle unigryw i fynychwyr ddysgu, darganfod tueddiadau technoleg newydd a chysylltu ag unigolion o'r un anian. Mae'n ddathliad o bopeth y gall technoleg ei gyflawni wrth lunio byd yfory.

Prif uchafbwyntiau


- **Talent4Tech** - Digwyddiad gyrfu dechnoleg unigryw wedi ei gynllunio i ddenu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol technoleg medrus. P'un a ydych chi'n gyflogwr sydd eisiau recriwtio neu'n fyfyrwr sy'n awyddus i dreiddio i'r byd technoleg, mae Talent4Tech yn cynnig profiad ymgolli, addysgiadol ac ysbrydoledig.
- **Cyfleoedd arddangoswyr** - I fusnesau sy'n awyddus i fod yn fwy amlwg, mae Wythnos Dechnoleg Cymru yn cynnig cyfle unigryw i arddangos eu brand i gynulleidfa ryngwladol dros y tri diwrnod. Ymgysylltu ag arweinyddwr byd-eang, gwneuthurwyr penderfyniadau, ac arloeswyr technoleg i sbarduno twf busnes a meithrin partneriaethau gwerthfawr.
- **Cyrhaeddiad byd-eang** – Gyda ffocws ar Gymru fel arweinydd technoleg byd-eang, mae'r uwchgynhadledd yn tynnu sylw at sectorau a gydnabyddir yn rhyngwladol fel **lled-ddargludyddion cyfansawdd, seiberddiogelwch, Deallusrwydd Artiffisial, Technoleg Ariannol, Technoleg Feddygol a chadwyn atal**, i gyd wrth sbarduno ymgysylltu a buddsoddi.
- **Profiad ymgolli** – Bydd arddangoswyr yn elwa o **gyfleoedd arddangos ffisegol a rhithwir**, gan sicrhau profiad gwirioneddol hybrid sy'n ehangu eich cyrhaeddiad y tu hwnt i'r digwyddiad.

Pam mynychu Wythnos Dechnoleg Cymru 2025?

Mae Wythnos Dechnoleg Cymru yn fwy na digwyddiad yn unig, mae'n ddathliad o botensial aruthrol y sector technoleg.

Mae'n gwasanaethu fel llwyfan i arweinyddwyr ac arloeswyr ddod at ei gilydd a chyfnwio syniadau a allai newid y ffordd rydyn ni'n byw, gweithio a chysylltu. Mae cyfranogiad yn cynnig mynediad at dueddiadau technoleg arloesol, buddsoddi byd-eang a chyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr, gan eich galluogi i aros ar flaen y gad mewn byd technoleg sy'n esblygu'n gyflym.

Am fwy o wybodaeth, gan gynnwys **arddangoswr a chyfleoedd partneriaethwch i Wefan Wales Tech** neu **cysylltwch â'r tîm**



Wales
Tech
Week

24 - 26 November 2025





Cynhadledd Rhanddeiliaid PSPRC 2025 - llunio dyfodol sgiliau yng Nghymru

Mae Cynhadledd Rhanddeiliaid PSPRC eleni yn addo bod yn ddigwyddiad allweddol yn natblygiad parhaus strategaethau sgiliau yng Nghymru.



Bydd y gynhadledd fawr hon, i'w chynnal ganol mis Mai, yn dod â ryw 150 o gyflogwyr, rhanddeiliaid a darparwyr ynghyd i archwilio'r polisi a'r strategaeth sgiliau ddiweddaraf. Bydd hefyd yn dathlu llwyddiannau o Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau cyfredol 2022-25 ac yn casglu mewnwelediadau i lywio datblygiadau yn y dyfodol.

Wrth i ni lywio cyfnod o drawsnewid gwleidyddol cyn etholiadau'r Senedd 2026, bydd y gynhadledd hon yn darparu llwyfan hanfodol ar gyfer deialog rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r gymuned sgiliau ehangach.

Bydd y themâu allweddol yn cynnwys pwysigrwydd cynyddol sgiliau gwyrdd a'r gwaith parhaus i adfywio'r gweithgareddau sy'n cael eu sbarduno gan y sector sy'n cefnogi gweithlu Cymru yn y dyfodol. Gyda mewnbyn gan sefydliadau fel Llywodraeth Cymru, Medr, a P-RC, bydd y gynhadledd yn cynnwys prif anerchiadau gan arweinwyr y diwydiant, yn ogystal â chynnal gweithdai cyfoes sy'n treiddio i rai o'r materion pwysicaf yn y sector sgiliau.

Bydd y gynhadledd yn rhoi cyfle i feithrin cyfnewid gwerthfawr rhwng cyflogwyr a rhanddeiliaid wrth lunio datblygiad sgiliau ar draws y rhanbarth. Bydd hefyd yn gyfle unigryw i gyfranogwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â llunwyr polisïau, rhannu eu mewnwelediadau, a chwarae rhan weithredol wrth ddylanwadu ar newid cadarnhaol.



Digwyddiadau sioe deithiol PSPRC - ennyn diddordeb pobl ifanc ledled y rhanbarth

Mae PSPRC yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau sioe deithiol mewn cydweithrediad â sefydliadau addysg bellach i ymgysylltu â phobl ifanc ledled y rhanbarth. Mae'r digwyddiadau hyn yn targedu pobl ifanc 16-24 oed ac yn cyd-fynd â'r Warrant Person Ifanc - gan ganolbwyntio ar feithrin ymgysylltu â phobl ifanc.

Bydd y sioeau teithiol ar ffurf pum seminar ategol, pob un yn cael ei gynnal yn un o bum coleg y rhanbarth. Bydd pob digwyddiad yn croesawu tua 30 o fynychwyr, gan greu amgylchedd agos â ffocws ar gyfer ymgysylltu ystyrlon.

Nod y digwyddiadau yw cyfnewid gwybodaeth yn rhyngweithiol lle gall pobl ifanc ddysgu am yr ystod eang o gyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw ledled y rhanbarth - o lwybrau addysg a hyfforddiant i gyflogaeth a rhagolygon gyrfa. Byddan nhw hefyd yn darparu mewnwelediadau gwerthfawr fydd yn cyfrannu at adfywio Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC, gan sicrhau bod safbwyntiau a dyheadau cenedlaethau iau yn cael eu hadlewyrchu mewn polisïau a strategaethau yn y dyfodol.

Trwy ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc, mae'r PSPRC yn ceisio creu plattfform iddyn nhw rannu eu meddyliau ar gyfeiriad y Cynllun, yn enwedig ynghylch eu hanghenion a'u pryderon penodol. Bydd hyn yn helpu i lywio'r adnewyddiad a sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion newidiol poblogaethau iau heddiw.

Mae'r digwyddiadau hyn yn gwasanaethu fel dilyniant gwerthfawr i Gynhadledd Rhanddeiliaid mwy PSPRC - gan ddarparu plattfform ehangach i gyflogwyr, rhanddeiliaid a darparwyr drafod datblygiadau polisi allweddol a strategaethau sgiliau.





Dathlu rhagoriaeth cyflogwyr yng Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru 2025

Cynhaliwyd Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru 2025 ym mis Ionawr yn y Neuadd yn y Senedd. Roedd yn cydnabod busnesau ledled Cymru sydd wedi mynd y tu hwnt i gefnogi dyheadau gyrfa pobl ifanc.

Wedi'i gynnal gan y newyddiadurwr Sian Lloyd, tynnodd y digwyddiad sylw at y rôl hanfodol y mae cyflogwyr yn ei chwarae wrth bontio'r bwlch rhwng addysg a'r gweithle.

Mae'r gwobrau'n dathlu busnesau sy'n ymgysylltu ag ysgolion, yn darparu profiadau gwerthfawr sy'n gysylltiedig â gwaith ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf trwy fentrau fel sgysiau cyflogwyr, mentora, a lleoliadau gwaith.

Atgyfnerthodd y digwyddiad bwysigrwydd cydweithio rhwng cyflogwyr a darparwyr addysg wrth lunio gweithlu y dyfodol.

Mae'r PSPRC wedi ymrwymo i gefnogi busnesau i gryfhau'r cysylltiadau hyn a sicrhau bod pobl ifanc yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer economi esblygol Cymru.

Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr ac enwebeion am eu hymroddiad i ysbrydoli talent yn y dyfodol!

Am fwy o wybodaeth am Wobrau Partneriaid Gwerthfawr ewch i Gyrfa Cymru.

Roedd yr enillwyr ar gyfer 2025 yn cynnwys:



Gwobr Cyflawniad Eithriadol:
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda



Newydd-ddyfodiad Gorau:
Morlais



Y Berthynas Barhaus Orau ag Ysgol:
Stiwdios y BBC a BBC Cymru Wales



Cyfraniad Personol Eithriadol:
Catrin Leader (Bute Energy) a Gwenno Angharad Williams (Cyngor Gwynedd)



Cyflogwr Profiad Gwaith Mwyaf Cefnogol:
Gwasanaethau Ynni Westward



Hyrwyddwr Gorau y Gymraeg yn y Gweithle:
Canolfan S4C Yr Egin



Cefnogwr Gorau yr Agenda Sero Net:
Viridor



Busnesau Bach Mwyaf Cefnogol:
Grounds for Good



»»» Academi Cogyddion Iau - ysbrydoli talent coginio y dyfodol yng Nghymru

Mae cogyddion ifanc uchelgeisiol yng Nghymru yn cael blas ar y diwydiant coginio drwy'r Academi Cogyddion Iau.

Mae'r academi yn rhaglen sgiliau 10 wythnos a gynlluniwyd ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed ac yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth gan Compass Cymru, Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF), ac Addewid Caerdydd. Mae'r fenter yn darparu hyfforddiant ymarferol i ddatblygu sgiliau cegin hanfodol ac ennyn diddordeb mewn gyrfaedd o fewn lletygarwch.

Cynhelir y rhaglen yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd, ac mae'n cynnig cyfle unigryw i fyfyrwyr weithio gyda chogyddion proffesiynol a dysgu sgiliau hanfodol fel paratoi bwyd, trin cyllyll a diogelwch cegin. Mae'r cwricwlwm hefyd yn pwysleisio cynaliadwyedd, maeth a phwysigrwydd defnyddio cynhwysion lleol.

Mae'r rhaglen yn dod i ben gyda digwyddiad arddangos arbennig yn Stadiwm Dinas Caerdydd, lle mae cyfranogwyr yn profi eu sgiliau newydd trwy baratoi pryd tri chwrs ar gyfer cynulleidfa o aelodau o'r teulu, gweithwyr proffesiynol y diwydiant ac enwogion lleol.

Mae'r fenter yn cyd-fynd yn agos â nod Addewid Caerdydd i ddarparu profiadau ystyrlon i bobl ifanc sy'n eu cysylltu â llwybrau gyrfa yn y dyfodol. Trwy gyflwyno myfyrwyr i fyd coginio proffesiynol, mae'r Academi Cogyddion Iau nid yn unig yn gwella eu sgiliau ond hefyd yn tynnu sylw at y cyfleoedd helaeth sydd ar gael yn sector lletygarwch bywiog Cymru.

Am fwy o wybodaeth am y fenter wych hon a sut mae'n siapia'r gweithlu yn y dyfodol, ewch i **Compass Cymru**.



Dysgwyr Coleg Caerdydd a'r Fro yn disgleirio mewn rhagoriaeth lletygarwch a choginio

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro (CCF) yn parhau i baratoi'r ffordd i dalent ifanc yn y diwydiant lletygarwch gyda nifer o ddysgwyr rhagorol yn cael llwyddiant rhyfeddol yn eu priod feysydd.

O gystadlaethau rhyngwladol i ddilyniant gyrfa cyflym, mae'r dysgwyr hyn yn enghraifft o effaith addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel yn CCF.

Ruby Pile Cynrychioli'r DU ar lwyfan y byd

Cyflawnodd Ruby Pile, cyn-ddysgwr DCU Rheoli Lletygarwch, garreg filltir anhygoel trwy gael ei dewis i gynrychioli'r DU yn WorldSkills Lyon 2024.

Gan gystadlu yn y categori gwasanaeth bwyty, ymunodd Ruby â Thîm y DU yn y Gemau Olympaidd Sgiliau yn Ffrainc - digwyddiad a oedd yn arddangos talent o'r radd flaenaf ac yn feincnod ar gyfer parodrwydd gweithlu byd-eang.

Meddai Ruby: **"Dwi mor falch ohonof i fy hun am gael fy newis i gynrychioli'r DU yn fy sgil. Mae gwaith caled ac ymroddiad yn talu ar ei ganfed!"**

Canmolodd Pennaeth CCF, Sharon James-Evans, ymroddiad Ruby, gan dynnu sylw at ei llwyddiant ar draws digwyddiadau WorldSkills a Chystadleuaeth Sgiliau Cymru: **"Mae Ruby wedi disgleirio ar bob lefel a'i gwobr yw cynrychioli'r DU ar y llwyfan rhyngwladol - cyfle nad oes llawer yn ei brofi."**

Ieuan Jones Seren sy'n dod i'r amlwg yn y byd coginio

Oy gystadlu yn Olympiad Cogydd Ifanc i weithio mewn bwytai seren Michelin, mae Ieuan Jones wedi sefydlu ei hun fel talent sy'n dod i'r amlwg yn y diwydiant coginio. Pan oedd yn CCF, enillodd wobwr y Pwddin Gorau yn Olympiad y Cogydd Ifanc, gan dynnu sylw at ei sgil a'i greadigrwydd ar lwyfan rhyngwladol.

Ers cwblhau ei gyrsiau Gwasanaethau Lletygarwch Lefel 2 a Choginio Proffesiynol Lefel 3, mae gyrfa Ieuan wedi ffynnu. Dechreuodd weithio yn y lleoliad un seren Michelin, Lucknam Park, cyn sicrhau rôl flaenllaw Chef de Partie mewn bwyty dwy seren Michelin yn Llundain - cyflawniad anhygoel yn ddim ond 21 oed.



Marnie Gaskell Dringo'r ysgol lletygarwch

Mae taith Marnie Gaskell drwy'r cwrs Goruchwylio ac Arwain Lletygarwch Lefel 3 yn CCF wedi cael ei nodi gan gynnydd

cyflym. Tra'n astudio, gweithiodd fel Goruchwyliwr Lletygarwch yn Loungers yng Nghasnewydd, gan gael dyrchafiad i fod yn Rheolwr Cynorthwyol yn gyflym.

Cafodd talent Marnie ei chydabod ymhellach mewn cystadleuaeth, gan ennill aur yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru a rownd derfynol y DU, lle cynrychiolodd Gymru a CCF. Mae hi nawr yn paratoui ar gyfer pennod newydd gyffrous, gan symud i Awstralia am chwe mis, lle bydd yn ennill profiad rhyngwladol yn y sector lletygarwch.



Kian Bennett O brentis iau i arweinydd lletygarwch

I Kian Bennett, nid oedd llwybr traddodiadol yr ysgol yn addas, ond roedd Rhaglen Prentis Iau

CCF yn gyfle perffaith i ddarganfod ei angerdd. Trwy hyfforddi a mentora pwrpasol, cwblhaodd Kian gymhwyster City & Guilds Lefel 2 mewn Gwasanaethau Lletygarwch a symud ymlaen i Reoli Lletygarwch Lefel 3.

Bellach yn ffynnu fel goruchwyliwr yn Arena Motorpoint Caerdydd, mae llwyddiant Kian yn mynd y tu hwnt i'w yrfa - mae hefyd yn cefnogi ei aelwyd yn ariannol, gan ddangos aeddfedrwydd a gwytnwch. Mae ei daith yn tynnu sylw at bŵer llwybrau addysg amgen a phwysigrwydd dod o hyd i'r amgylchedd cywir i ffynnu.



Beatrice Beere

Angerdd am ragoriaeth ym maes coginio

Gydag ymagwedd dda at waith ac awydd i lwyddo, croesawodd Beatrice Beere bob her a gyflwynwyd yn ystod ei chyfnod yn CCF. Gan astudio Gwasanaethau Lletygarwch Lefel 2 a Choginio Proffesiynol Lefel 3, cystadlodd mewn digwyddiadau Cystadleuaeth Sgiliau Cymru a WorldSkills a helpodd i feithrin ei hyder a'i gwytnwch.

Bellach yn cael ei chyflogi fel cogydd yn adran bwytaï a digwyddiadau CCF, mae Beatrice yn parhau i fireinio ei sgiliau mewn lleoliad proffesiynol, gan brofi bod ymrwymiad ac angerdd yn agor drysau yn y byd coginio.



Ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf

Mae cyflawniadau'r dysgwyr hyn yn adlewyrchu ymrwymiad CCF i ragoriaeth, gan ddarparu'r sgiliau, y profiadau a'r cyfleoedd i fyfyrwyr lwyddo mewn diwydiannau hynod gystadleuol. Mae eu straeon llwyddiant yn ysbrydoliaeth i fyfyrwyr presennol a rhai'r dyfodol, gan brofi y gall ymroddiad, talent a'r hyfforddiant cywir arwain at gyfleoedd anhygoel - yn lleol ac yn fyd-eang.

Diweddariad PSPRC: Cynllun strategol Medr – datblygiadau allweddol

Mae Medr, y corff sy'n gyfrifol am ariannu a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru, wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ddatblygu ei gynllun strategol pum mlynedd sydd â'r nod o gryfhau integreiddio addysg drydyddol ac ymchwil ledled Cymru.

Mae'r cynllun, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â phartneriaid ledled Cymru, yn ymateb i **ddatganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi** Llywodraeth Cymru, tra hefyd yn mynd i'r afael â'r gofynion a amlinellir yn **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**.

Mae'r cynllun strategol yn nodi nodau ac ymrwymïadau strategol craidd Medr, gan nodi'r dull o gyflawni'r amcanion hyn. Mae'n cyd-fynd â'r pum ffordd o weithio yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan sicrhau bod cynaliadwyedd a meddwl hirdymor yn llywio camau gweithredu ar draws y sectorau addysg, ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau cyfranogiad llawn gan weinidogion, gofynnwyd am gymeradwyaeth ar draws amrywiaeth o adrannau Llywodraeth Cymru a bydd Medr yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y broses ddatblygu a chyflawni.

Bydd diweddariadau pellach yn cael eu rhannu mewn cylchlythyrau i ddod ac mae mwy o wybodaeth ar eu gwefan - www.medr.cymru/en/strategic-plan/

